Newyddion gan Ddiogelwch y Ffyrdd Cymru

"Beth sy'n digwydd ym myd diogelwch ar y ffyrdd?" Mehefin 2011 — Rhifyn 20

Yn y Rhifyn hwn:

• Llongyfarch MBE • Ymgyrch Yswiriant • Cenhadaeth: Fatal 4law
• Carl Sargeant AC • Ymgyrch Yfed a Gyrru haf 2011 • 'Stay a Hero, Stay Safe'
• Angen i'r Rhai sy'n Dysgu Reidio Symud Ymlaen • Sedd Car sy'n Canfod Trawiadau ar y Galon • Beic Un-Olwyn neu Feic Modur? • 'Y Fan' yn Ymgysylltu â Gyrwyr Ifanc

Llongyfarch MBE

Mae'r Frenhines wedi cyflwyno MBE i Meryl James, y Rheolwraig Diogelwch ar y Ffyrdd yn Llywodraeth Cymru, i gydnabod ei chyfraniad i ostwng nifer yr anafedigion ar ffyrdd Cymru. Cafodd Meryl, sy'n gweithio yn Adran Diogelwch y Ffyrdd ers deg mlynedd a rhagor, yr anrhydedd i gydnabod ei hymrwymiad cyson a pharhaus i ddiogelwch ar y ffyrdd a hybu moddau teithio cynaladwy drwy'r Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau.

Meddai Steve Baker, Pennaeth RoSPA Cymru, "Mae gweledigaeth ac ymrwymiad Meryl i gwtogi ar nifer yr anafedigion wedi bod yn ganolog wrth greu diwylliant newydd ym myd diogelwch ffyrdd Cymru dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae ei hynni, ei harweiniad a'i chefnogaeth, yn enwedig i awdurdodau lleol, wedi bod yn hollbwysig wrth hyrwyddo prosiectau, ymgyrchoedd ac arferion da ac mae'n llawn haeddu'r gydnabyddiaeth. Ar ran pob un o'i chydweithwyr yng Nghymru a thu hwnt, rwy'n ei llongyfarch yn galonnog iawn ar gael anrhydedd cwbl haeddiannol."

Wrth sôn am ei phrofiad yng Nghastell Windsor, meddai Meryl, "Cefais amser gwych. Roedd hi'n anrhydedd mawr a theimlwn yn arbennig iawn ar y diwrnod. Erbyn hyn, mae hyd yn oed y Frenhines yn gwybod am lwybrau diogel yng Nghymru! Rwy'n gwerthfawrogi'n fawr yr holl gefnogaeth a'r dymuniadau da rwy wedi'u cael gan fy nghydweithwyr ym maes diogelwch ar y ffyrdd."

Ymgyrch Yswiriant

Rhybuddir modurwyr i yswirio'u cerbydau cyn i ymgyrch newydd gychwyn i daclo melltith gyrru heb yswiriant. O dan y gyfraith newydd ynghylch Gorfodi Yswiriant Parhaus – a fydd yn effeithio ar bob modurwr o 20 Mehefin ymlaen – mae'n drosedd cadw cerbyd heb yswiriant, yn hytrach na dim ond gyrru heb yswiriant.

Meddai'r Gweinidog Diogelwch ar y Ffyrdd, Mike Penning: "Mae gyrwyr di-yswiriant yn berygl ar ein ffyrdd. Maen nhw'n lladd 160 o bobl, yn anafu 23,000 bob blwyddyn ac yn costio £500 miliwn i fodurwyr onest mewn premiymau ychwanegol. Diben cyflwyno'r gyfraith newydd a llym hon yw rhwystro gyrwyr di-yswiriant rhag bod ag unman i guddio.

"Mae'n neges ni'n glir – mynnwch yswiriant neu fe wynebwch chi ddirwy, achos llys neu gipio a dinistrio'ch car."."

Meddai Ashton West, Prif Weithredwr Swyddfa'r Yswirwyr Moduron, "Mae'r newid yn y gyfraith yn cynyddu'r gweithgarwch gorfodi. Nid y cerbydau sy'n cael eu gyrru heb yswiriant yn unig gaiff eu dal. Bellach, rhaid i'r ceidwad cofrestredig sicrhau bod y cerbyd wedi'i yswirio drwy'r amser. I sicrhau bod pawb yn gwybod am y cynllun newydd, caiff ymgyrch ei dangos ledled y wlad ar sianeli teledu lloeren a thir. Ar unrhyw adeg benodol, mae rhyw bedwar y cant o gerbydau heb eu hyswirio ac mae angen i hynny newid. Dyna pam y mae'r orfodaeth newydd hon mor bwysig."

Gwyliwch yr hysbyseb deledu ar YouTube

Cenhadaeth: Fatal 4law yn Galluogi Teithwyr Ifanc i Godi'u Llais

Mae Cyngor Sir Powys wedi cyhoeddi ymgyrch newydd ac unigryw i geisio galluogi teithwyr yn eu harddegau i godi eu llais os byddan nhw'n teithio gyda gyrrwr anghyfrifol. Uned Diogelwch ar y Ffyrdd y cyngor sydd wedi lansio Cenhadaeth: Fatal 4law, a chanolbwynt yr ymgyrch yw tudalen ar y wefan rwydweithio gymdeithasol boblogaidd Facebook. Bydd y tudalen - www.facebook.com/missionfatal4law - yn darparu gwybodaeth, cymorth a chyngor i dangos sut y gall unigolion ddylanwadu ar ymddygiad pobl eraill mewn ceir ac, yn y pen draw, helpu i osgoi gwrthdrawiad.

Defnyddiwyd actorion lleol wrth ffilmio fideo firaol, sy'n cynnwys aelodau o Ganolfan Ieuenctid Llandrindod yn gymeriadau ychwanegol, ac mae'r band lleol The Hostages wedi ysgrifennu a chynhyrchu cân o'r enw 'Stop, Slow Down' ar gyfer yr ymgyrch. Bydd y ffilm a'r gân ar gael ar y tudalen yn Facebook.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae nifer y teithwyr ifanc sydd wedi'u lladd neu eu hanafu ym Mhowys wedi codi. Roedd cyfanswm y teithwyr ceir a anafwyd mewn gwrthdrawiadau yn 2010 bron deirgwaith yn uwch na nifer y beicwyr modur a anafwyd ar ffyrdd y sir yn yr un flwyddyn. Creodd yr Uned Diogelwch ar y Ffyrdd yr ymgyrch newydd sbon hon am nad oedd adnoddau ar gael i dargedu'r grŵp bregus hwn o ddefnyddwyr y ffyrdd.

Meddai Alyson Broome, Swyddog Prosiect Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor: "Mae'r cynnydd yn nifer y teithwyr ifanc sy'n cael eu hanafu ar ein ffyrdd yn peri gofid. Pan ewch chi i mewn i gar fel teithiwr, rydych chi'n rhoi'r cyfrifoldeb dros eich bywyd chi i rywun arall.

"Fe hoffen ni ddangos i'n pobl ifanc yma ym Mhowys, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n gyrru, fod ganddyn nhw lais o hyd pan ddaw hi'n fater o ofalu am eu diogelwch eu hunain.

"Drwy ymuno â'r ymgyrch ar Facebook, fe gân nhw amrywiaeth mawr o gynghorion ac awgrymiadau ynghylch ffyrdd eraill o ddylanwadu ar ymddygiad pobl os nad oes ganddyn nhw mo'r hyder i godi eu llais. Ein gobaith yw y gwnaiff yr ymgyrch hon ostwng nifer y gwrthdrawiadau sy'n cynnwys teithwyr ifanc ac, yn eu tro, ein gyrwyr ifanc."

Meddai'r Cynghorydd Geraint Hopkins, yr Aelod o'r Cabinet dros Ddiogelwch ar y Ffyrdd: "Rwy'n falch iawn o'r fenter hon ac yn gobeithio'n fawr iawn y bydd hi'n gostwng nifer yr anafiadau a'r marwolaethau ymhlith teithwyr ceir.

"Wrth greu'r ymgyrch, mae'r Uned Diogelwch ar y Ffyrdd wedi defnyddio poblogrwydd gwefannau rhwydweithio cymdeithasol, ac all yr agwedd arloesol hon at addysg ond cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr ifanc ein ffyrdd."

I gael gwybod rhagor, ewch i **www.facebook.com/missionfatal4law**. Does dim rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda Facebook i weld yr ymgyrch. Neu ffoniwch yr Uned Diogelwch ar y Ffyrdd ar 01597 826979.

Carl Sargeant AC

Ym mis Mai, cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, aelodau ei gabinet newydd. Penodwyd Carl Sargeant AC yn Weinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau ac ef sy'n gyfrifol am Drafnidiaeth.

Ymgyrch Yfed a Gyrru haf 2011

Meddyliwch cyn i chi yfed – dyma neges y pedwar heddlu yng Nghymru wrth iddynt gychwyn ar Ymgyrch Atal Yfed/Cymryd Cyffuriau a Gyrru haf 2011.

Nod yr ymgyrch, a lansiwyd gan Heddlu Gogledd Cymru ar y Maes yng Nghaernarfon ddydd Mercher, 1af Mehefin, yw targedu gyrwyr sy'n rhoi bywydau yn y fantol trwy yfed a gyrru neu yrru dan ddylanwad cyffuriau. Drwy gydol yr ymgyrch a fydd yn para am fis, bydd swyddogion ar draws Cymru yn canolbwyntio'u hymdrechion ar yrwyr sy'n yfed ac yn cymryd cyffuriau cyn mynd y tu ôl i'r llyw a byddant yn stopio mwy o yrwyr ar ochr y ffordd er mwyn taclo'r rhai sy'n anwybyddu'r gyfraith.

Meddai Prif Gwnstabl Cynorthwyol Heddlu Gogledd Cymru, Gareth Pritchard: 'Yr adeg yma o'r flwyddyn mae mwy o demtasiwn byth i yfed a gyrru gan fod pobl yn dueddol o gael eu temtio i gymryd diod neu ddwy wrth gymdeithasu efo'u ffrindiau heb feddwl am beryglon mynd y tu ôl i'r llyw wedyn.

"Rydym eisiau i bobl fwynhau eu hunain dros fisoedd yr haf, ond os ydych yn mynd allan i ardd gwrw ar ôl y gwaith neu i farbeciw ffrind dros y penwythnos, meddyliwch sut y byddwch yn mynd adref. Bwciwch dacsi, trefnwch i rywun penodol beidio yfed er mwyn gyrru neu, mewn gair, peidiwch ag yfed.

"Bydd Swyddogion o bob rhan o Gymru allan ac yn benderfynol o arestio pobl sy'n dewis yfed neu gymryd cyffuriau a gyrru. Mae'r mwyafrif helaeth o'r cyhoedd yn gefnogol i'r angen i wneud ein ffyrdd yn fwy diogel ac yn rhannu'n penderfyniad i waredu'n ffyrdd o bobl sy'n yfed neu'n cymryd cyffuriau ac yn gyrru.

Ychwanegodd: "Bydd ein hymdrechion ni yn parhau drwy gydol misoedd yr haf wrth i ni geisio gwneud ein ffyrdd yn fwy diogel i bawb."

Bydd Ymgyrch Atal Yfed/Cymryd Cyffuriau a Gyrru Cymru-gyfan yn ystod yr haf yn rhedeg o ddydd Mercher 1af tan ddydd Iau 30ain Mehefin.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn annog unrhyw un sydd â gwybodaeth am unigolion sy'n yfed neu'n cymryd cyffuriau ac yn gyrru i'w riportio drwy ffonio 101 (o Gymru), 0845 607 1001 (Llinell Gymraeg) neu 0845 607 1002 (Llinell Saesneg) neu Crimestoppers Cymru yn ddienw.

- Yn ystod yr ymgyrch yn 2010 cafodd 25,714 o bobl eu stopio a chael profion anadl gan yr heddlu yng Nghymru. Roedd cyfanswm o 513 yn bositif neu'n gwrthod cymryd y prawf. Yn y gogledd profwyd 6,876 o yrwyr ac roedd 103 yn bositif positives.

'Stay a Hero, Stay Safe'

Mae Partneriaeth Ffyrdd Mwy Diogel Sussex (yr SSRP) wedi lansio ffilm i olynu ei ffilm hynod lwyddiannus 'Embrace Life'. Mae'r ffilm newydd yn canolbwyntio ar feiciau modur a beicwyr modur.

Yn 'Stay a Hero, Stay Safe' portreadir beicwyr modur yn batrwm i bobl eraill, a gwelir bachgen ifanc yn creu ei brofiad ei hun ar feic modur. Meddai Ken Seymour, rheolwr yr SSRP: "Rydyn ni'n codi proffil beicwyr modur am fod y data'n awgrymu ei bod hi'n bryd dechrau atgoffa beicwyr modur o'r ffaith eu bod nhw mor fregus.

O fwriad, dydy 'Stay a Hero' ddim yn rhoi'r bai ar neb ac nid y ffilm ysgytwol arferol mohoni. Gobeithio y bydd yn cyffwrdd â'n cymuned o feicwyr, yn ysgogi trafodaeth ac yn helpu i arbed bywydau ar ein ffyrdd. Cliciwch yma i weld y ffilm neu, i gael gwybod rhagor, cysylltwch â Neil Hopkins, Partneriaeth Ffyrdd Mwy Diogel Sussex, ar 01273 467425.

Angen i'r Rhai sy'n Dysgu Reidio Symud Ymlaen

Mae RideSafe BackSafe, y fenter diogelwch ar y ffyrdd i feicwyr modur, yn poeni o ddifrif am nifer y rhai sy'n dysgu reidio ac sy'n reidio'n anghyfreithlon ar ôl methu ag adnewyddu eu tystysgrif CBT (Hyfforddiant Sylfaenol Gorfodol).

Gan mai am ddwy flynedd yn unig y mae tystysgrif CBT yn ddilys, rhaid i yrrwr moped neu feic modur ailgymryd y cwrs CBT onid yw wedi llwyddo yn nwy ran y prawf i gael trwydded lawn i reidio beic modur neu wedi symud ymlaen i yrru car yn lle hynny.

Dyma esboniad yr Ymgynghorydd Diogelwch ar y Ffyrdd ac aelod o dîm RideSafe BackSafe, Rob Winn:

"Os na wnewch chi ddim byd, daw'ch CBT i ben ar ôl dwy flynedd. Os daliwch chi i deithio ar ffyrdd cyhoeddus, rydych chi'n cyflawni trosedd traffig ffyrdd. Fydd yr yswiriant ar eich moped neu'ch beic modur ddim yn ddilys chwaith, a gall y drosedd olygu y caiff eich beic ei gipio gan yr Heddlu ac, efallai, ei falu. Y ffaith sy'n gwneud hyn oll yn fwy o ddychryn yw mai cyflwyniad sylfaenol i deithio ar y ffyrdd yw'ch CBT ac y dylech ei ystyried yn gam tymor-byr at gael rhagor o hyfforddiant a theithio'n fwy diogel."

Yn ôl y ffigurau a gyhoeddwyd gan Transport Statistics yn ddiweddar mae nifer y bobl sy'n reidio mopedau a beiciau modur wedi cynyddu'n aruthrol ac erbyn hyn bydd y boblogaeth o feicwyr modur yn teithio dros bum biliwn o gilometrau'r flwyddyn.

Er nad yw pobl ar fopedau a beiciau modur ond yn rhyw un y cant o'r holl draffig ar y ffyrdd, maen nhw'n dal i fod yn rhyw 20% o'r holl anafedigion mewn gwrthdrawiadau, a'r rhai 16-24 oed sy'n wynebu'r risg mwyaf.

Medd Rob Winn ymhellach:
"Wrth i gost tanwydd ac yswiriant gynyddu'n enbyd, bydd llawer o bobl yn byw ar gyllideb dynnach a gall hynny beri i rai sy'n dysgu beidio â thrafferthu adnewyddu eu tystysgrif CBT neu symud ymlaen ohoni, a gall rhai hyd yn oed anghofio. Mae RideSafe BackSafe yn awyddus i dynnu sylw at y ffaith na chaiff nodyn atgoffa ei anfon pan ddaw'r terfyn amser o ddwy flynedd i ben.

Yn ôl yr ystadegau, hefyd, bydd y rhai sy'n cael hyfforddiant pellach yn llai tebyg o fod mewn gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd. Felly, rydyn ni'n annog y rhai dibrofiad, yn enwedig, i ddatblygu eu sgiliau yn ogystal â dal i deithio'n gyfreithlon ar y ffordd".

Cewch wybod rhagor yn www.ridesafebacksafe.co.uk a gall y rhai sy'n dysgu ymuno â fforwm y beicwyr drwy'r wefan i ofyn am gyngor ac arweiniad gan arbenigwyr a beicwyr modur brwd.

Mae'r Asiantaeth Safonau Gyrru (y DSA) hefyd yn cynnig taflen o'r enw 'Routes to motorcycling' sy'n llawn gwybodaeth am y pwnc".

Sedd Car sy'n Canfod Trawiadau ar y Galon

Mae Ford wrthi'n datblygu sedd car sy'n defnyddio technoleg electrodau synhwyro i ganfod a yw gyrrwr ar fin cael trawiad ar y galon.

Gall y system fonitro unrhyw un, ac nid y rhai ag afiechyd y galon yn barod. Yn y pen draw, mae modd ei defnyddio i rybuddio'r gyrrwr am berygl, fel trawiad ar y galon, a allai ddigwydd ymhen dim ac mae'n rhoi cyfle i'r gyrrwr stopio'r car. Gallai'r offer ffôn yn y car hefyd roi gwybod i'r gwasanaethau brys priodol. Meddai'r Athro Steffen Leonhardt o Brifysgol RWTH Aachen: "Byddai'n bosibl i'r gallu i fonitro calonnau wrth y llyw gynnig manteision enfawr o ran iechyd a diogelwch ar y ffyrdd – i'r defnyddiwr ac i'r cyhoedd yn ehangach."

Ceir amryw o gymhorthion iechyd eraill, gan gynnwys offer rheoli asthma, datrysiadau ar y we i roi gwybod am alergeddau, a dyfais i fonitro lefelau glwcos gyrwyr diabetig, ac fe ddatblygwyd y sedd gan Ford i helpu'r rhai sydd â salwch cronig neu anhwylderau meddygol i ddal i fod yn symudol. Mae'r gwaith datblygu'n dal i fynd yn ei flaen am fod angen datrys rhai problemau ynghylch monitro pobl drwy eu dillad, ond cafwyd llwyddiant yn achos 90-95% o'r gwirfoddolwyr adeg y profion sefydlog, a darlleniadau hynod gywir hyd at 98% o'r amser y tu ôl i'r llyw.

Cliciwch yma i ddarllen adroddiad newyddion llawn gan Yahoo.

Beic Un-Olwyn neu Feic Modur?

Dadlennwyd: Y 'deic' all fynd i mewn i lifft.

Mae'r rhai sy'n cludo eitemau yn gwybod mai defnyddio beic modur yw'r ffordd hawsaf i wau drwy draffig trwm. Ond mae ateb newydd wedi'i ddatblygu i daclo tagfeydd sy'n drech hyd yn oed na dwy olwyn.

Yn union fel y Transformer, gall yr Uno III Streetbike – neu'r U3 – ei droi ei hun, o wasgu botwm, o feic modur confensiynol i fod yn beiriant tebyg i un un-olwyn.

Mae'r peiriant trydan yn cydbwyso ar ddwy olwyn gyfochrog yn y tu ôl, a bydd yr olwyn flaen yn tynnu'n ôl rhyngddynt er mwyn iddo allu mynd drwy fannau mor gyfyng nes bod modd ei yrru i mewn i adeilad, a hyd yn oed i mewn i'r lifft.

Yna, pan fydd angen, bydd yr olwyn flaen yn llithro tuag ymlaen wrth i'r olwynion cefn symud yn ôl, gan roi digon o sefydlogrwydd i'r cerbyd deithio hyd at 30mya. Gall deithio rhyw 30-35 milltir ar ôl cael ei wefru am dair i bedair awr.

Syniad Benjamin Gulak, dyfeisiwr ifanc o America, oedd y cerbyd newydd i gychwyn. Bedair blynedd yn ôl, pan oedd ef ar daith fusnes i Asia gyda'i dad, meddyliodd y bachgen, a oedd yn 17 oed ar y pryd, am hwn fel ateb i fegadinasoedd myglyd Tsieina. Ar ôl mynd adre i'r Unol Daleithiau, gosododd nod iddo'i hun i ddylunio'r cerbyd trydan eithaf – a'i wneud yn un apelgar.

Ar sail prototeip gwreiddiol Benjamin, yr Uno I a adeiladwyd ar gyfer prosiect gwyddoniaeth ysgol yn 2008, mae'r Uno III wedi esblygu o fod yn gerbyd sionc mewn dinas i un all deithio'n sefydlog ar briffyrdd. Erbyn hyn, cwmni dylunio o'r enw BPG Motors yn Cambridge, Massachusetts, sy'n cynhyrchu'r cerbyd blaengar a rhyfeddol hwn. Ac am ei fod yn ddigon bach i'w gadw dan do ond yn ddigon pwerus i deithio ar y ffyrdd, gobaith y gwneuthurwyr yw y bydd y cerbyd, sy'n costio $7,500 (£4,600), yn chwyldroi byd cymudo beunyddiol.

"Y Fan' yn Ymgysylltu â Gyrwyr Ifanc

Mae'r Gwasanaethau Brys yn y gogledd wedi dod ynghyd i lansio cerbyd newydd sydd wedi'i gomisiynu'n arbennig i helpu i addysgu modurwyr ifanc am ddiogelwch ar y ffyrdd.

Wedi'i ariannu gan Heddlu'r Gogledd a'i reoli gan elusen addysg diogelwch PentrePeryglus, mae'r cerbyd yn un amlasiantaeth a gaiff ei ddefnyddio yn nigwyddiadau'r Gwasanaethau Brys ledled y gogledd.

Mae'r 'fan' yn gerbyd sydd ag offer clyweled sy'n cynnwys PC amlgyfryngau diffiniad-uchel, dwy sgrin fflat LCD HD, chwyddseinyddion is-sonig, chwyddseinyddion clywedol a 'subwoofers'.

Caiff y system sain ei defnyddio'n arf i ymgysylltu â gyrwyr ifanc a gaiff weld amrywiaeth o adnoddau clywedol fydd yn cynyddu eu hymwybyddiaeth o beryglon gyrru ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae negeseuon allweddol yn cynnwys gwregysau diogelwch, gyrru ar ôl bod yn yfed a chymryd cyffuriau, pwysau o du cyfoedion, tynnu sylw, a ffonau symudol a chyflymdra.

Cysylltwch â'r Cynullydd

Cynullydd: Michelle Harrington, RoSPA mharrington@rospa.com

02920 250 600 Nid yw RoSPA yn gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.